

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 6ed o DACHWEDD 2017 YN NEUADD CARWE AM 7.00.

Presennol: Ian Evans (yn y gadair), Alan Lewis, Meic Bowen, Tyssul Evans, Aled Williams, Tracey James, Margaret Rees, Heddwyn Jones, Geraint Rosser, Geoff Hewitt a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Linda Williams

Materion Personol

1824 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Cydymdeimlwyd a'r Cynghorydd Aled Williams a gollodd ei Dad dros y dyddiau diwethaf. Safodd pawb mewn munud o ddistawrwydd.

1825 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 02/10/2017 fel rhai cywir.

1826 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 1796 - Rheilffordd Pontiets - Mynegwyd pryder bod rhan o'r ffens wedi cwmpo yn y gwynt a phenderfynwyd cysylltu â Stuart Thomas ynglŷn â hyn.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1827 Marie Curie - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

1828 Carmarthen & District Youth Opera – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £25.

1829 Francesca Thomas - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £25 tuag at eu treuliau yn cynrychioli Cymru mewn 'National Baton Twirling Championships' yn Norwy. Awgrymwyd ei bod yn gofyn am nawdd ariannol oddiwrth Cyngor Gwledig Llanelli hefyd.

1830 Pontyates & District Caged Bird Society – Penderfynwyd talu i hurio Neuadd Pontiets ar gost o hyd at £100.

1831 Eisteddfod Llandyfaelog – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1832 Nasareth Pontiets – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1833 Neuadd Pontiets – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1834 Neuadd Pontiets - Llythyr yn diolch am y tal o £2000 tuag at logi'r Swyddfa.

1835 Ebeneser Crwbin – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1836 Macmillan Cancer – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1837 Cyngor Sir Gar - Apêl Teganau - Byddwn yn barod i dderbyn rhoddion yn y Cyfarfod nesaf.

1838 Comisiwn Ffiniau i Gymru- Arolwg 2018 o Etholiadau Seneddol yng Nghymru - Penderfynwyd ein bod yn argymhell cadw sedd Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr fel y mae,

1839 Eglwys y Santes Fair, Pontiets – Gwahoddiad i'r Cadeirydd mynychu Oedfa'r Cofio ar 12/11/17 – Bydd y Cadeirydd yn bresennol.

Ceisiadau Cynllunio

1840 Ceisiadau Cynllunio

- a) Cais Rhif W/36225 - Ms Tina Bailey - Fferm Tanerdy, Pontiets - Trac Newydd at fwriad Amaethyddol - Dim Gwrthwynebiad ond bod amod defnydd amaethyddol yn unig yn cael ei osod.
- b) Cais Rhif W/36289 – Ymddiriedolaeth Goedtir – Coed Ffoslas, Carwe – Maes Parcio – Dim Gwrthwynebiad.
- c) Cais Rhif W/36321 – Cyngor Sir Gar – Tir wrth gefn 9, Brynderi, Pontiets – Materion wrth gefn – Dim Gwrthwynebiad.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1841 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Hydref 2017. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

- 1842** Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
- a) Cyflog y Clerc - £402.71 (Mis Hydref)
 - b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Hydref)
 - c) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £110.00 (Mis Hydref)
 - ch) HMRC (Treth)- £80.40 (Mis Hydref)
 - d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Hydref)
 - dd) BT – Ffon y Swyddfa - £45.78 (Mis Hydref)
 - e) Inc i'r Llungopiwr - £50.16
 - f) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau - £184.70
 - ff) Swyddfa Archwilio Cymru – Archwiliad 2016/2017 - £321.75
 - g) Treuliau'r Syrfêwr - £35.00
 - Ng) Ffon y Syrfêwr - £30.00

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid – 16/10/17.

1843 Wedi trafodaeth lwyr penderfynwyd derbyn argymhellion yr Is-bwyllgor fel y nodir isod :-

1 Presept 2018-2019. Wedi trafodaeth lwyr ac edrych yn fanwl ar y gyllideb bresennol, cynigwyd gan Margaret Rees ac eiliwyd gan Heddwyn Jones ein bod yn codi'r Presept 2% am y flwyddyn 2018-2019.

2 Ceisiadau am nawdd Ariannol. Penderfynwyd ein bod yn gofyn am Fantolen Ariannol oddiwrth pob ymgeiswyr am nawdd ariannol o'r 1af. Ebrill 2018 ymlaen cyn ystyried y cais.

3 Comisiwn Ffiniau - Penderfynwyd ein bod yn datgan ein bwriad i argymhell cadw at y ffiniau presennol fel Cyngor Cymuned Llangyndeayrn.

4. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Penderfynwyd yn unfrydol ein bod yn gwrthwynebu Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Cyfethol Cyngorwr – Ward Llangyndeayrn

1844 Cafwyd adroddiad gan y Clerc mae ond un a wnaeth cais am ei chyfethol i lenwi'r sedd wag. Felly penderfynwyd cyfethol Mrs Caroline Williams, 1, Heol Dwr, Llangyndeayrn fel Cyngorwr yn cynrychioli Ward Llangyndeayrn.

Materion Cyngorwyr

1845 Geraint – Gofyn i'r Cyngor Sir glanhau'r safle ail-gylchu ar y Meinciau.

1846 Tyssul - Cysylltu â First Cymru ynglŷn ag ail lleoli Cysgodfa Bys yn :-

- a) Sgwâr Llangyndeyrn
- b) Sgwar Meinciau
- c) Brongwendraeth, Carwe
- d) Maesywern, Carwe

1847 Ian Cysylltu eto a Mr John McAvoy ynglŷn â chyflymdra traffig yn Ffoslas

Cyfarfod nesaf:- 4ydd o Ragfyr 2017 yn Swyddfa'r Cyngor, Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch.

(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd..... CADEIRYDD

Dyddiad.....